MARWNAD:

Y PARCHEDIG

Mr. DANIEL ROWLANDS,

yr hwn a ymadawodd â'r Byd

HYDREF 16, 1790, yn 77 Mlwydd o'i Oed,

Ac a gladdwyd yn LLANGEITHO.

GAN

WILLIAM WILLIAMS.

Yr AIL ARGRAPHIAD.

Diar. x 7.

Coffadwriaeth y Cyfiawn fydd fendigedig.

TREFECCA:

ARGRAPHWYD YN Y FLWYDDYN

M,DCC,XCI.

Egwyddor i'r Anllythyrennog.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M
N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r
f s t th u w y.

Y Llafariaid, neu'r Bugeiliaid.

a e i o u w y

Yr holl Lythyrennau eraill a elwir Cydseiniaid.

---

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	la le li lo lu lw ly
all ell ill oll ull wll yll	lla lle lli llo llu llw lly
am em im om um wm ym	ma me mi mo mu mw my
an en in on un wn yn	na ne ni no nu nw ny
ap ep ip op up wp yp	pa pe pi po pu pw py
aph eph iph oph uph wph yph	pha phe phi pho phu phw phy

1 AI rhaid marw'r hên Barchedig
Rowlands, er holl ddoniau'r Nef,
Roddwyd megis môr diderfyn
Yn ei yſbryd bywiog ef?
A allſai 'mo weddiau'r Eglwys,
Gafodd trwyddo nefol râs,
Ddim tros rai blynyddau'n rhagor,
Gadw angau dewr i maes?

2 Ai rhaid marw gwr wnai dyrfa
Oerllyd, drom, yn llawn o dân;
Werin fyddar, fud, ddifywyd,
Oll i ſeinio nefol gân?
Marw un wnai i Satan gwympo
Lawr yn ſwrth o entrych Nef;
Ond er hyn a llawer rhagor,
Angen oedd ei farw ef.

3 Dyn o'r pridd a wnawd i fynu,
Dyn i'r pridd ſy'n myn'd i'w le;
Felly holl drigolion daear,
Ond Tywyſog mawr y Ne';
Y mae marw'n rhwym wrth eni,
Ac mae gwobr oer y bedd,
Fel 'tiſeddiaeth anhepcorol,
I'r cadarna un ei wedd.

4 Nid rhaid canu dim am dano,
Nid rhaid *Marble* ar ei ſedd;
Ofer tynnu dim o'i *bictiwr*,
Ar bapuryn ſael ei wedd:
Gwnaeth ei farwnad yn ei fywyd,
Rho'dd ei *Farble* yn ei le;
Fe 'ſgrifennodd arno ei enw,
A llythyrennau pur y Ne'.

5 Y dorf ſeintiau, frŷ ac yma,
Y mae arnynt ol ei fŷs,
Sy iddo'n garreg-fedd a marwnad,
Ac yn *bictiwr* hardd ſe wy's:

Pan bo cerrig-nadd a phapur,
Gyd â'r byd, yn myn'd yn dân,
Gras y nefoedd ar y rhei'ny
Ddwg ei enw ef ym mlaen.

6 O bweroedd pur prydyddiaeth,
Sydd yn dwyn adenydd mawr
Ac yn *hofran* uwch cymmylau
Dwyrain a *Gorllewin* wawr;
Rhowch im' nerth i ddringo fynu,
Ac i olrhain ôl ei draed,
O'r pryd cododd haul yng *Nghymru*
Ne's ei fyn'd i'r nefol wlad.

7 Pan oedd tywyll nos trwy *Frydain*,
Heb un argoel codi gwawr,
A thrwm gwsg oddiwrth yr Arglwydd,
Wedi goruwch-guddio'r llawr;
Daniel chwythodd yn yr udgorn,
Gloyw udgorn *Sina* fryn,
Ac fe grynodd creigydd cedyrn,
Wrth yr adsain nerthol hyn.

8 *Boanerges* oedd ei enw,
Mab y daran danllyd gref,
Sydd yn siglo yn ddychrynllyd,
Holl golofnau dae'r a Nef;
" Dewch dihunwch (oedd yr adsain)
" Y mae'n dinas ni ar dân,
" Ffowch oddi yma mewn munudyn,
" Ynte ewch yn ulw mân."

9 Yn *Llangeitho* fe ddechreuodd
Gweiddi distryw'r anwir fyd,
Miloedd ffôdd o'r *De'* a'r *Gogledd*,
Yn un dyrfa yno ynghyd;
Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
Yr holl werin fawr a mân,
Nid oedd gwedd wynebpryd un gwr,
Fel y gwelwyd ef o'r blaen.

10 Gliniau'n crynu gan y daran,
Fel pe buaſai angau ei hun.
Wedi cym'ryd llawn berch'nogaeth
Ar y dyrfa bob yr un;
"Beth a wnawn am *ſaſio*'n henaid,"
Oedd yr unrhyw gydſain lef;
Chwi ſy am wybod hanes *Daniel*,
Dyma fel dechreuodd ef.

11 Daeth y ſŵn dros frynniau *Dewi*,
Megis fflam yn lloſgi llîn,
Ne's datſeinio creigydd *Towi*,
A hên *Gappel-Yſtrad-Iſfin*;
Lle daeth Siroedd yn finteioedd,
Werin o aneirif rî',
Wrth gref adſain udgorn gloyw,
Cennadwri'r nefoedd fry.

12 Dyma ddyddiau pur gyffelyb
I rai *Sina* hên o'r blaen,
Llais yr udgorn a llef geiriau,
Tarth a thymheſt', mŵg a thân;
Mynydd mawr yn crynu'n danbaid,
Ac yn chwareu o eigion byd,
Yn datguddio yn erbyn pechod,
O bob rhyw, anfeidrol lid.

13 Dyma'r pryd daeth *Harris* fywiog,
Yn arfogaeth fawr y Ne',
Megis taran annioddefol,
Yno i'w gyfarfod e';
Dyma ddyddiau ſylfaen gobaith,
Dyddiau gwewyr llym a phoen,
Wrth gael eſgor ar ei meibion,
Newydd wraig yr addfwyn OEN.

14 Pump o Siroedd penna' *Cymru*,
Glywodd y taranau mawr,
A chwympaſant gan y dychryn,
Megis celaneddau lawr;

Clwyfau gawd a chlwyfau dyfnion,
Ac fe fethwyd cael iachad,
Ne's cael eli o *Galfaria*,
Dwyfol ddw'r a dwyfol waed.

15 'Nol pregethu'r ddeddf dymheſtlog,
Rai blynyddau yn y blaen,
A rhoi llawer yn friwedig,
'Nawr cyfnewid wnaeth ei gân;
Fe gyhoeddodd iachawdwriaeth
Gyflawn hollol, berffaith, lawn,
Trwy farwolaeth y MESSIA,
Ar *Galfaria* un prydnhawn.

16 Grym ei athrawiaethau melus,
Bellach, oedd meithrinu ffydd,
Trwy ddatguddio y Cyfryngwr,
Sylfaen iachawdwriaeth rydd;
Dyn â'r Duwdod ynddo'n trigo,
Wedi prynu, â'i ddwyfol waed,
Holl dryſorau nef y nefoedd,
I gredadyn tlawd yn rhad.

17 Dyna'r pryd daeth *Whitefield* enwog,
Ar adenydd dwyfol ras,
Lawr i *Gymru* i gael profi
Y newydd win o ddwyfol flas;
Dyma'r pryd yr hyfryd aſſiwyd,
O fewn ffwrnes fawr y nef,
Sais a *Chymro* mewn athrawiaeth
Loyw, ddiſglair, gadarn gref.

18 Pan oedd athrawiaethau cymmyſg,
Wedi llanw'r wlad yn un,
Baxter, *Armin*, a *Phelagius*,
'Nghyd â holl ddyledſwydd dyn;
Y rhai'n a waeddwyd yn eu herbyn,
Fe yſgymmunwyd hwynt i maes,
Ac fe blannwyd trwy'r eglwyſi,
Athrawiaethau dwyfol râs.

19 Dyna'r pryd, boed cof am dano,
Gânwyd yr *Aſſoſiaſiwn* fawr,
Ag ſy er's hanner cant o flwyddau,
Yn cadw fynu hyd yn awr;
Yn gwneud undeb athrawiaethau,
Ac yn clymmu cwlwm crwn,
Na's gall rhagfarn na drwg dybiau,
Fyth i ddattod dim o hwn.

20 'Nawr y penna un ddihangodd,
Rowlands ſy heddyw yn y Nef,
Wedi derbyn coron auraidd,
Hyfryd ffrwyth ei lafur ef;
Talent ddeg a roddwyd iddo,
Fe'u marchnattodd hwynt yn iawn,
Ac o'r deg fe'u gwnaeth hwy'n gannoedd,
Cyn machludo ei haul brydnhawn.

21 Nid oes un o Siroedd *Cymru*,
Braidd na phlwy', ſy'n berchen cred,
Na bu *Rowlands* yn eu teithio
Ar eu hyd, ac ar eu lled;
Tros fynyddau, trwy afonydd
Ac aberoedd gwaetha' fydd,
O *Dŷ Ddewi* i *Lanandras*,
O *Gaergybi* i *Gaerdydd*.

22 Deuwch troſodd i *Langeitho*,
Gwelwch yno ol ei law,
Miloedd meithion yno'n diſgwyl,
Llu oddi yma, llu o draw;
A'r holl dorf yn 'moſyn ymborth,
Amryw'n d'wedyd, P'odd y cawn?
Pawb yn ffroſtio wrth fyn'd adre,
Iddo gael ei wneud yn llawn.

23 Gwelwch *Ddaniel* yn pregethu,
Yn y tarth, y mwg a'r tân;
Mil ar unwaith yn moliannu,
Haleluia yw y gân;

Ne's b'ai dorf o rai annuwiol,
Mewn rhyw ſyndod dwfn, mud,
Ac yn methu rhoi eu meddwl
Ar un dim ond diwedd byd.

24 Pan oedd *Salomon* ffyddlonaf,
Yn cyſſegru'r deml fawr,
Ac o'r pulpit pres yn gwaeddi
Am i'r *Shecin'* ddod i lawr;
Mŵg a tharth, arwyddion nefol,
Lanwodd yr holl dŷ yn frau,
Fel na's gallfai yr offeiriaid
Ddim ymlaen i agoshau.

25 Felly pan aech i *Langeitho*,
Ond cael *Daniel* wych i'r lan,
Codai haul a llewyrch nefol
Ar y dyrfa yn y fan;
Geiriau 'hedai megis ſaethau,
Ac a ddaliai afael dynn,
Ar galonnau oedd yn cyſgu,
Neu yn feirw ſwrth cyn hyn.

26 Bywiol oedd ei athrawiaethau,
Melus fel yr hytryd win;
Pawb a'u clywai a chwennychai
Brofi peth o'u nefol rin;
Pur ddiferion bythol fywyd,
Ag a roddai iawn iachad
I rai glwyfodd cyfraith *Sina*,
Ac a dorylliodd tan ei thraed.

27 *Rowlands ſartodd* allan gynta',
A'i le gadwodd ef yn lân,
Ac ni's cafodd, er gwiſgied,
Un gwr gynnig cam o'i flaen;
'Roedd ei ddawn e'n ennill arnom,
'Roedd e'n cael ei eiſteddle'n llawn,
Yn y gadair ucha o'r eglwys,
O'i laes foreu i'w brydnhawn.

28 Fe fu rhai yn ceiſio dringad
Fry i'r gadair yr oedd ef,
Ond cwympaſant megis *Luſi-*
Ffer i lawr o uwchder nef;
Sandimaniaid balch yn boſtio
Eu goleuni mawr a'u grym,
Chwyddo o wyntoedd fel pledrenni,
Ne's i'nt rwygo a myn'd yn ddim.

29 Ac fe wybiodd amryw ddynion,
Rhai ar aſſwy, rhai ar dde',
Ond fe gadwodd arfaeth nefol,
Rowlands oneſt yn ei le:
A phwy bynnag gyfeiliornai,
O wiw lwybrau dwyfol râs,
Fe ddatguddiai eu cyfeiliornad,
Hyd ne's gwelai pawb hwy'n gas.

30 Os deuai *Antitrinitarian*,
A rhyw *heres* front ddiſail,
Haeru ni fedd Duw berſonau
Cynta', trydydd, nac un ail;
Daniel yno faifai fynu,
Fel colofn gadarn gref,
Ac wrth'nebai, o flaen cannoedd,
Ei athrawiaeth ynfyd ef.

31 Mae ei holl ddaliadau gloyw
Mewn tair credo i'w gwel'd yn glir,
Athanaſius, a *Nicea*,
'Nghyd â'r Apoſtolaidd wir;
Hen Articlau eglwys *Loegr*,
Catecis *Weſtminſter* fawr,
Ond yn benna'r Bibl ſanctaidd,
Dywynnodd arnynt oleu wawr.

32 Ac o'r nentydd gloyw yma,
'Roedd tryſorau nefol râs,
Megis afon fawr lifeiriol,
Yn *Llangeitho*'n d'od i maes;

Gwaed a dw'r, nid dw'r yn unig,
Angau a ſancteiddrwydd drud,
Tywyſog mawr ein iachawdwriaeth
Yw'r pregethau ſy yno gyd.

33 Crist ei hunan ar *Galfaria*,
Yn clirio holl hen lyfrau'r nef,
Ac yn talu'n llwyr bob hatling,
O'r holl ddyled ganddo ef;
Mae'r gwrandawyr oll yn llawen,
Oll yn hyfryd oll yn llawn,
Wedi bwytta'r bara nefol,
O laes foreu hyd brydnhawn.

34 Mae'r torfeydd yn dychwel adre',
Mewn rhyw yſpryd llawen fryd,
Wedi taflu lawr eu beichiau,
Oedd yn drymion iawn o hyd;
Y ffyrdd mawr yn frith o werin,
Sŵn caniadau'r nefol Oen,
Ne's yw'r creigydd oer a'r cymmydd
Yn adſeinio'r hyfryd dôn.

35 Dyma ddyddiau gwerthfawr *Rowlands*,
Ac hwy etto a barhan'.
Pan bo'i gorph yn mynwent *Ceitho*,
Wedi myn'd yn ulw mân;
Os *Elias* yn ei gerbyd
Tanllyd eſgyn fry i'r nef,
Fe ddaw *Eliſeus* yn berchen
Ar ei fantell nefol ef.

36 Ac ni ddeffydd gras y nefoedd,
Draethodd *Rowlands* yn ei chwŷs,
Ddim' er gwaetha dyn na diafol,
Yn *Llangeitho* fach ar frys;
Rhaid i'r egin grawn i dyfu,
A dwyn ffrwythau melus, pur,
Hauwyd gan y *Rowlands* hwnnw,
Sy heddyw yn y nefol dir.

37 Ac er marw'n tad ardderchog,
Marw ni wna'r 'fengyl bur,
Can's hi eſtyn ei hadenydd,
Ne's bo hi'n llanw môr a thir;
Nid â haul i fan o'r ddaear,
Ag mae dynion yno'n bod,
Na bydd hi'r eſengyl loyw
I fanol ddilyn ôl ei throed.

38 Ac nid oedd holl ddyddiau *Rowlands*,
Er eu bod hwy'n amſer hir,
Ddim ond gwawr-ddydd iachawdwriaeth,
Ar y ſanctaidd nefol dir;
Y mae'r eglwys fawr yn feichiog,
A hi eſgor cyn prydnhawn,
Ar bregethwyr megis *Daniel*,
O bob doniau'r nef yn llawn.

39 Ti *Nathaniel*, gwas y nefoedd,
Gwylia ar y gorlan glud,
Gaſglodd *Rowlands*, dy dad ffyddlon,
Trwy ryw orcheſt mawr ynghyd;
Uwch mewn dyſg, nid llai mewn doniau,
Saf fel lluſern oleu glir,
I helpu ei ddefaid eſ i gadw
Yr union ffordd i'r nefol dir.

40 Bydd yn dad i'r *Aſſoſiaſiwn*,
Ac os teimli'th fod yn wan,
Ti gai *help* gwir efangylwr,
Dafydd oneſt o *Langan*;
Dôdd y cerrig â'i ireidd-dra,
A thrwy rym ei 'fengyl fwyn,
Wna i'r derw mwyaf caled
Blygu'n yſtwyth fel y brwyn.

41 Sefwch fel coloſnau cedyrn,
Chwi gewch *help* i fyned trwy,
Y *Llwyd* ddoeth a *Williams Lledrod*,
Ac ugeiniau gyd â hwy;

Nithiwch y '*Soſaſnwn* bellach,
A gwegrynwch hi yn lân,
Na bo eiſyn cyſe: ornad
Ddim i ſpelwi'r gwenith glân.

42 Sefwch yn lle *Hus* a *Jerom*,
Cranmer, *Ridley*, aeth trwy'r tân;
Amddiffynwch byngciau *Calſin*,
Megis *Daniel* hen o'r blaen;
Rhwyſtrwch un o wirioneddau
'R Bibl ſanctaidd fyn'd ar goll;
Bywyd, profiad, ac athrawiaeth,
Heb eu cywir gadw oll.

43 Mae fy amſer i ar ddarfod,
Mae fy ngalwad *juſt* ar dd'od,
'Rwy' mewn carchar gan yr angau,
Fel yn llechu tan ei droed;
Ni cha'i fyn'd i maes o'i loches,
Yma fymryn bach na thraw,
Ond fy '*Jubil*' mi ddiſgwyliaf,
Dyrr fy nghadwyn maes o law.

44 Etto, er ei lyffetheiriau,
Sydd yn rhwymo nghorph ynghyd,
Y mae'r nefoedd fawr yn agor,
Rhwygwyd y cymmylau 'gyd;
Mae fy yſpryd yn gartrefu,
Gyd â'r dorf aneirif fawr,
O rai cyntaf-anedigion,
Ag ſy yn y nef yn awr.

TERFYN.